Spring 26 | Edition 09

# AIC Cymru

WORKING IN SUPPORT OF **MODERN SUSTAINABLE COMMERCIAL AGRICULTURE**



## Welcome

**Dear AIC Members,**

**Welcome to the spring/summer 2026 edition of the AIC Cymru Journal, bringing you key updates on the issues, policies and insights shaping Welsh agriculture.**

Following the Senedd election in May, AIC Cymru is operating in a new and evolving political landscape. As the Welsh Government sets its direction for the next term, there will be a strong focus on policy delivery, funding commitments and the future framework for agricultural support.

The Sustainable Farming Scheme (SFS) has now moved from design into delivery, marking a significant transition for farm businesses and the wider supply chain.

AIC Cymru continues to represent Members' interests, working with government and industry to support a practical, sustainable and productive sector.

In this edition, you'll find key updates, insights, and priorities for the months ahead.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# The Sustainable Farming Scheme

**Single applications through the Welsh Rural Payments Scheme (RPW) to join the Sustainable Farming Scheme (SFS) opened on 2 March and closed on 15 May.**

This represents a significant shift in agricultural and rural support in Wales, as captured by comments from Ian Rickman, President of the Farming Union of Wales (FUW):

> *"Few years in living memory will prove as transformative for Welsh farming as 2026. After almost a decade of discussion, debate – and at times, spirited disagreement – the Sustainable Farming Scheme now moves from design into delivery, marking a generational shift in how Welsh farming is supported and sustained"*

The whole industry is now awaiting confirmation of final participation levels. For farm businesses, the decision remains finely balanced. On the one hand, moving away from the Basic Payment Scheme (BPS) involves a 40% reduction in year one, followed by a 20% annual reduction, with payments phased out entirely by 2029. On the other, entering the SFS Universal Layer offers a new framework, although longer-term financial certainty remains unclear.

This uncertainty is further shaped by the new political landscape in Wales following the Senedd election. At present, there are no confirmed multi-year funding commitments, and there may yet be shifts in how funding is allocated between Universal, Optional and Collaborative Actions. As a result, farming unions and AIC continue to call for clear payment rates, alongside some form of indexation.

In addition, the Welsh Government's revised modelling of the scheme indicates there could be negative economic impacts, including reduced farm business investment, lower livestock numbers, and an overall reduction in farm output. This comes at a time when global geopolitical pressures underline the increasing strategic importance of domestic food production.

Continues overleaf...

# BPS vs SFS at farm business level

| Basic Payment Scheme | Sustainable Farming Scheme | *Could* be up to 40% worse off compared to BPS |
|---|---|---|
| Avg. BPS payments<br>**~ £14,500**<br>(~16,500 claimants)<br>=<br>Income the farmer can spend as they wish<br>*Compliance costs absorbed by the business as good practice* | Avg. SFS UBP payments<br>**~ £15,600**<br>(based on 15,555 FT & PT farm businesses)<br><br>Avg. *other* compliance costs<br>**~ £2,300** per farm<br><br>Avg. output reduction<br>**~ £4,500** per farm | Revised SFS Modelling<br>**<£76.3 million**<br>in FBI (17.7% reduction)<br><br>**<£69.7 million**<br>in farm outputs<br>(3.9% reduction)<br><br>**<60,300** livestock units<br>(5% reduction)<br><br>**<1,163**<br>Standard Labour Requirements on-farm<br>(3.7% reduction) |

Against this backdrop, individual farm businesses must decide whether to join the scheme, based on both commercial and more emotive factors. Early indications suggest around 50% have submitted single-entry applications, potentially releasing £50 million previously allocated through BPS.

Following the application window, there will be significant interest in final participation figures, including the type and size of farms involved, alongside subsequent changes in purchasing trends across the agri supply sector.

# SFS Optional and Collaborative Actions

**The Welsh Government has published further information on the Optional and Collaborative Actions within the Sustainable Farming Scheme (SFS), expected from later in 2026 to 2027 as part of a phased transition to 2029. However the detail remains limited, particularly regarding payment rates and long-term funding certainty.**

Payments will sit alongside the Universal Payment and may include:

- One-off revenue payments (e.g. for plans)
- Multi-annual revenue payments, including area-based payments, (e.g. habitat management)
- Capital payments, (e.g. equipment and infrastructure)

At this stage, most actions have a strong environmental focus or reflect existing schemes, including small grants and organic support. The Welsh Government has indicated these layers largely build on current or previous schemes, although terminology and processes may change.

The Sustainable Production element has been more positively received, particularly proposals to reduce age at slaughter and introduce sire registration.

Access to certain actions may be restricted to those in the Universal Layer. While some Optional Actions will be open to all farmers, priority is expected to be given to those that have entered the Universal Layer.

Concerns remain around support for native breeds and suckler cows, alongside budget pressures for 2026–27 as further scheme layers are introduced.







# Politics in Wales – A new political landscape

**While the Sustainable Farming Scheme (SFS) represents a once-in-a-generation change to agricultural support, Wales is also at a significant political juncture. The Senedd election on 6 May has resulted in a significantly changed political environment in Wales, with the legislature expanding to 96 Members across 16 constituencies under a new proportional representation system.**

The outcome has produced a more fragmented political landscape, with no single party securing an outright majority. This is expected to result in minority or cooperative governance arrangements, which may introduce additional complexity into policymaking and delivery, including the future direction of agricultural support.

This evolving political environment adds a further layer of uncertainty for farm businesses making long-term decisions under the Sustainable Farming Scheme.

From a sector perspective, there is broad consensus on the need to maintain the overall framework of the SFS, while making amendments and improvements where necessary. The scheme should be funded at a level that supports productive and sustainable farming, particularly on those farms delivering the highest levels of agricultural productivity. It should also support family farms, rural communities and the wider rural economy in a way that delivers climate and environmental benefits.

Consequently, a multi-year funding commitment, alongside clear payment rates with a degree of indexation, would provide the confidence needed for longer-term farm investment and improvements in farm productivity.

## AIC priorities include:

1. Supporting a strategic framework for the sustainable growth of the food and farming sector in Wales.
2. Ensuring the Welsh Government provides stability for farm businesses, rural communities, and the wider supply chain, equivalent to that previously delivered by the Basic Payment Scheme (BPS).
3. Securing a ring-fenced, multi-year budget of over £500 million to support resilience in farming and rural economies.
4. Establishing an Independent Review Group to reduce unnecessary regulatory burdens.
5. Supporting proportionate and practical approaches to water quality regulation, including targeted legislative changes and consideration of a derogation from organic nitrogen limits.
6. Ensuring Wales can benefit from precision breeding technologies to improve productivity, resilience, and environmental outcomes.

Scan to read the **AIC Cymru Senedd Election 2026** Manifesto

ENGLISH

WELSH




The new political landscape reinforces the importance of clarity around funding, regulation and long-term policy direction. AIC will continue to engage with the Welsh Government to ensure Members' interests are reflected in future agricultural policy development.

# AIC Cymru joins the "Farming for the Future" workshop

**In March, AIC Cymru joined the "Farming for the Future" workshop organised by Mentera on behalf of the Welsh Government. This brought together a wider group of industry stakeholders as a final stage following a series of six farmer roundtable discussions on evolving farm practices over the past decade, the impacts of climate change and future trends in the sector – both more broadly and in relation to climate change mitigation.**

AIC Chair Alister Davies, Vice Chair Richard Lewis, and Policy Manager Michael Muncey participated in what was a valuable and informative discussion. A report from this work is expected to be published later this summer and will be shared with Members.



# AIC Cymru Committee update

AIC Cymru continues to evolve, with new Members joining the Committee as part of the ongoing rotation process. Osian Rhys-Jones (Oliver Seeds, Wales and Northern Ireland) joined in April, and Sarah Banks (Wynnstay), Head of Technical and Sustainability, is due to join in June.






CAFC RWAS

# Dates in the diary

AIC Cymru will be attending the Royal Welsh Agricultural Show from Monday 20 July and will once again be hosting an informal drinks and networking event in the International Pavilion from 17:00.

Please save the date.

This will provide an opportunity to engage with Member businesses, political leaders and key stakeholders. AIC will also be sponsoring a Senedd Member cheese and wine reception alongside the Farming Union of Wales (FUW).

aic® AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk
www.agindustries.org.uk

Design & Development by RDP
RDP COMMS

Gwanwyn 26 | Rhifyn 09

AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

# AIC Cymru

YN GWEITHIO I GEFNOGI **AMAETHYDDIAETH FODERN FASNACHOL A CHYNALIADWY**



## Croeso

**Annwyl aelodau AIC,**

**Croeso i rifyn gwanwyn / haf 2026 cyfnodolyn AIC Cymru, sy'n dod â'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y materion, y polisïau a'r mewnwelediadau sy'n llywio amaethyddiaeth Cymru.**

Yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai, mae AIC Cymru bellach yn gweithredu mewn tirwedd wleidyddol newydd sy'n esblygu. Wrth i Lywodraeth Cymru bennu ei chyfeiriad ar gyfer y tymor nesaf, bydd ffocws cryf yn cael ei roi ar gyflawni polisïau, ymrwymiadau ariannu, a'r fframwaith ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy bellach wedi ei wireddu, gan nodi trawsnewidiad sylweddol i fusnesau fferm a'r gadwyn gyflenwi ehangach.

Mae AIC Cymru yn parhau i gynrychioli buddiannau'r aelodau, gan gydweithio â'r Llywodraeth a'r diwydiant i gefnogi sector ymarferol, cynaliadwy a chynhyrchiol.

Yn y rhifyn hwn, fe welwch ddiweddariadau, mewnwelediadau a blaenoriaethau allweddol ar gyfer y misoedd nesaf.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Agorodd y broses i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy gynllun Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer ceisiadau unigol ar 2 Mawrth, ac fe'i caewyd ar 15 Mai.**

Mae hyn yn newid sylweddol i'r gefnogaeth amaethyddol a gwledig yng Nghymru, fel yr eglura Ian Rickman, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru:

> *"Prin iawn fydd y blynyddoedd mewn cof a fydd wedi cael effaith mor drawsnewidiol ar ffermio yng Nghymru ag y mae 2026 wedi ei gael. Ar ôl bron i ddegawd o drafodaethau, dadleuon ac, ar adegau, anghytuno brwd, mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy bellach wedi ei wireddu, gan nodi newid cenedliadol yn y ffordd y caiff ffermio yng Nghymru ei gefnogi a'i gynnal."*

Mae'r diwydiant cyfan bellach yn aros am gadarnhad o'r lefelau terfynol o ran cyfranogiad. I fusnesau fferm, mae'r penderfyniad yn parhau i fod yn un cytbwys iawn. Ar y naill law, mae symud oddi wrth Gynllun y Taliad Sylfaenol yn golygu gostyngiad o 40% yn y flwyddyn gyntaf, ac yna gostyngiad blynyddol o 20%, gyda thaliadau'n cael eu dileu yn llwyr erbyn 2029. Ar y llaw arall, mae ymuno â haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnig fframwaith newydd, er bod sicrwydd ariannol yn y tymor hwy yn parhau i fod yn aneglur.

Mae'r dirwedd wleidyddol newydd yng Nghymru yn dilyn etholiad y Senedd yn cyfrannu ymhellach at yr ansicrwydd hwn. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ymrwymiadau ariannu aml-flwyddyn wedi eu cadarnhau, ac mae'n bosibl y bydd newidiadau yn cael eu gwneud eto i'r ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu rhwng camau gweithredu cyffredinol, dewisol a chydweithredol. O ganlyniad, mae undebau ffermio ac AIC yn parhau i alw am gyfraddau talu clir, ochr yn ochr â phroses fynegeio o ryw fath.

Yn ogystal â hyn, mae gwaith modelu diwygiedig Llywodraeth Cymru yn dangos y gallai'r cynllun gael effaith negyddol ar yr economi, a allai olygu llai o fuddsoddiad mewn busnesau fferm, llai o dda byw, a gostyngiad cyffredinol mewn allbynnau fferm. Daw hyn ar adeg pan mae pwysau geo-wleidyddol byd-eang yn amlygu pwysigrwydd strategol cynyddol y sector cynhyrchu bwyd domestig.

Yn parhau dros y dudalen...

# Cynllun y Taliad Sylfaenol yn erbyn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar lefel busnes fferm

| Cynllun y Taliad Sylfaenol | Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Gallai fod hyd at 40% yn waeth ei fyd o'i gymharu â'i sefyllfa o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol |
|---|---|---|
| Taliadau sylfaenol cyfartalog **~ £14,500** (~16,500 o hawlwyr) = Incwm y gall y ffermwr ei wario fel y dymuna *Costau cydymffurfio a ysgwyddir gan y busnes fel arfer da* | Taliadau Sylfaenol Cyffredinol cyfartalog y Cynllun Ffermio Cynaliadwy **~ £15,600** (yn seiliedig ar 15,555 o fusnesau fferm amser llawn a rhan-amser) | Modelu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy Diwygiedig **<£76.3 miliwn** mewn buddsoddiad busnes fferm (gostyngiad o 17.7%) |
| | Costau cydymffurfio cyfartalog eraill **~ £2,300** fesul fferm | **<£69.7 miliwn** mewn allbynnau fferm (gostyngiad o 3.9%) |
| | | **<60,300** o unedau da byw (gostyngiad o 5%) |
| | Gostyngiad cyfartalog mewn allbwn **~ £4,500** fesul fferm | **<1,163** o ofynion safonol am lafur ar y fferm (gostyngiad o 3.7%) |

Yn y cyd-destun hwn, rhaid i fusnesau fferm unigol benderfynu a ddylent ymuno â'r cynllun, yn seiliedig ar ffactorau masnachol a ffactorau mwy emosiynol. Mae adroddiadau cynnar yn awgrymu bod oddeutu 50% wedi cyflwyno ceisiadau mynediad sengl, gan ryddhau, o bosibl, £50 miliwn a ddyrannwyd yn flaenorol drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol.

Yn dilyn ffenestr y rhaglen, bydd diddordeb sylweddol yn y ffigurau terfynol o ran cyfranogiad, gan gynnwys math a maint y ffermydd dan sylw, ochr yn ochr â newidiadau dilynol mewn tueddiadau prynu ar draws y sector cyflenwi amaethyddol.

## Camau dewisol a chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi mwy o wybodaeth am y camau dewisol a chydweithredol o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sydd i'w disgwyl ddiwedd 2026 i 2027 fel rhan o drawsnewidiad graddol i 2029. Fodd bynnag, mae'r manylion yn parhau i fod yn brin, yn enwedig ynghylch cyfraddau talu a sicrwydd ariannu yn yr hir dymor.**

Bydd taliadau'n cael eu gwneud ochr yn ochr â'r Taliad Cyffredinol, a gallent gynnwys y canlynol:

- Taliadau refeniw untro (e.e. ar gyfer cynlluniau)
- Taliadau refeniw aml-flwyddyn, gan gynnwys taliadau sy'n seiliedig ar ardal, (e.e. rheoli cynefinoedd)
- Taliadau cyfalaf, (e.e. offer a seilwaith)

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar yr amgylchedd, neu maent yn adlewyrchu cynlluniau presennol, gan gynnwys grantiau bach a chefnogaeth organig. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yr haenau hyn yn adeiladu i raddau helaeth ar gynlluniau cyfredol neu flaenorol, er y gall y derminoleg a'r prosesau newid.

Mae'r ymateb i gynhyrchu cynaliadwy wedi bod yn fwy cadarnhaol, yn enwedig y cynigion i ostwng yr oed ar adeg lladd a chofrestru'r tad.

Gall mynediad i rai gweithrediadau fod wedi ei gyfyngu i'r rhai yn yr haen Gyffredinol. Er y bydd rhai camau gweithredu dewisol ar agor i bob ffermwr, disgwylir y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sydd wedi ymuno â'r haen Gyffredinol.

Mae pryder yn parhau am y gefnogaeth i fridiau brodorol a buchod sugno, ochr yn ochr â phwysau cyllidebol yn ystod 2026–2027 wrth i haenau pellach gael eu cyflwyno i'r cynllun.







# Gwleidyddiaeth yng Nghymru – Tirwedd wleidyddol newydd

**Er bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynrychioli newid unwaith mewn cenhedlaeth i gymorth amaethyddol, mae Cymru hefyd mewn cyfnod gwleidyddol arwyddocaol. Mae amgylchedd wleidyddol Cymru wedi newid yn sylweddol ers etholiad y Senedd ar 6 Mai, gyda'r ddeddfwrfa'n ymestyn i 96 o aelodau ar draws 16 etholaeth o dan system gynrychiolaeth gyfrannol newydd.**

Mae'r canlyniad wedi creu tirwedd wleidyddol fwy darniog, heb unrhyw blaid sengl yn llwyddo i sicrhau mwyafrif llwyr. Disgwylir i hyn arwain at drefniadau llywodraethu lleiafrifol neu gydweithredol, a all gyflwyno cymhlethdod ychwanegol i'r broses o lunio polisïau a'u rhoi ar waith, gan gynnwys dyfodol cymorth amaethyddol.

Mae'r amgylchedd gwleidyddol hwn sy'n esblygu yn ychwanegu haen ychwanegol o ansicrwydd i fusnesau fferm sy'n gwneud penderfyniadau hirdymor o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

O safbwynt y sector, mae consensws eang ar yr angen i gynnal fframwaith cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan wneud diwygiadau a gwelliannau lle bo angen. Dylid ariannu'r cynllun ar lefel sy'n cefnogi ffermio cynhyrchiol a chynaliadwy, yn enwedig ar y ffermydd hynny sy'n darparu'r lefelau uchaf o gynhyrchiant amaethyddol. Dylai hefyd gefnogi ffermydd teuluol, cymunedau gwledig, a'r economi wledig ehangach mewn ffordd sy'n cyflawni manteision o ran yr hinsawdd a'r amgylchedd.

O ganlyniad, byddai ymrwymiad ariannu aml-flwyddyn, ochr yn ochr â chyfraddau talu clir ac ychydig o waith mynegeio, yn rhoi'r hyder y mae ei angen i sicrhau y buddsoddir mewn ffermydd yn y tymor hwy ac y gwneir gwelliannau o ran cynhyrchiant ffermydd.

## Mae blaenoriaethau AIC yn cynnwys y canlynol:

1. Cefnogi fframwaith strategol ar gyfer twf cynaliadwy'r sector bwyd a ffermio yng Nghymru.
2. Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu sefydlogrwydd i fusnesau fferm, cymunedau gwledig, a'r gadwyn gyflenwi ehangach, sy'n cyfateb i'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol gan Gynllun y Taliad Sylfaenol.
3. Sicrhau cyllideb aml-flwyddyn wedi ei chlustnodi o dros £500 miliwn i gefnogi gwydnwch yr economi ffermio a'r economi wledig.
4. Sefydlu grŵp adolygu annibynnol i leihau beichiau rheoleiddio diangen.
5. Cefnogi dulliau cymesur ac ymarferol o reoleiddio ansawdd dŵr, gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol wedi eu targedu, ac ystyried rhanddirymiad o derfynau nitrogen organig.
6. Sicrhau y gall Cymru elwa o dechnolegau bridio manwl er mwyn gwella cynhyrchiant, gwydnwch a chanlyniadau amgylcheddol.

Sganiwch i ddarllen maniffesto **AIC Cymru ar gyfer Etholiad Senedd Cymru 2026**

SAESNEG

CYMRAEG




Mae'r dirwedd wleidyddol newydd yn atgyfnerthu pwysigrwydd eglurder o ran cyllid, rheoleiddio a chyfeiriad polisi yn yr hirdymor. Bydd AIC yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau y caiff buddiannau'r aelodau eu hadlewyrchu wrth ddatblygu polisi amaethyddol yn y dyfodol.

# AIC Cymru yn ymuno â'r gweithdy 'Ffermio i'r Dyfodol'

**Ym mis Mawrth, ymunodd AIC Cymru â'r gweithdy 'Ffermio i'r Dyfodol' a drefnwyd gan Mentera ar ran Llywodraeth Cymru. Daeth y gweithdy â grŵp ehangach o randdeiliaid o'r diwydiant ynghyd fel cam olaf cyfres o chwe thrafodaeth bord gron â ffermwyr ar arferion ffermio sydd wedi esblygu dros y degawd diwethaf, effeithiau newid hinsawdd a thueddiadau'r dyfodol yn y sector—yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â lliniaru newid hinsawdd.**

Cymerodd Cadeirydd AIC, Alister Davies, yr Is-gadeirydd Richard Lewis, a'r Rheolwr Polisi Michael Muncey ran yn y drafodaeth werthfawr a llawn gwybodaeth hon. Disgwylir i adroddiad a luniwyd o ganlyniad i'r gwaith hwn gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr haf hwn, a bydd yn cael ei rannu â'r aelodau.



## Yr wybodaeth ddiweddaraf am Bwyllgor AIC Cymru

Mae AIC Cymru yn parhau i esblygu, gydag aelodau newydd yn ymuno â'r pwyllgor fel rhan o'r broses gylchdroi barhaus. Ymunodd Osian Rhys-Jones (Oliver Seeds, Cymru a Gogledd Iwerddon) ym mis Ebrill, ac mae disgwyl i Sarah Banks (Wynnstay), Pennaeth Technegol a Chynaliadwyedd, ymuno ym mis Mehefin.






## Dyddiadau yn y dyddiadur

CAFC RWAS

**Bydd AIC Cymru yn bresennol yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru o ddydd Llun 20 Gorffennaf ymlaen, ac unwaith eto eleni, byddwn yn cynnal digwyddiad diodydd a rhwydweithio anffurfiol yn y Pafiliwn Rhyngwladol o 5 o'r gloch ymlaen.**

Cofiwch gadw'r dyddiad.

Bydd hwn yn gyfle i ymgysylltu â busnesau sy'n aelodau, arweinwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid allweddol. Bydd AIC hefyd yn noddi derbyniad caws a gwin ar gyfer Aelodau o'r Senedd ochr yn ochr ag Undeb Amaethwyr Cymru.

AIC AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk
www.agindustries.org.uk

Design & Development by RDP
RDP COMMS